# ROBERTS, THOMAS Art (1835 - 1899), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

**Enw:** Thomas Roberts
**Dyddiad geni:** 1835
**Dyddiad marw:** 1899
**Priod:** Winifred Roberts (née Jones)
**Plentyn:** Arthur Rhys Roberts
**Rhiant:** Jane Powel Roberts
**Rhiant:** John Powel Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** John Owen

Ganwyd yn y Green, ger Dinbych, 19 Awst 1835, mab John a Jane Powel Roberts. Bu am ychydig yn ysgol Jonah Lloyd, pregethwr gyda'r Annibynwyr; yna am flwyddyn yn was ar ffarm ei ewythr, y T   Draw, ger yr Wyddgrug. Wedi hynny aeth i Ysgol Frutanaidd yn Ninbych. Bu'r athro, Macaulay, yn garedig wrtho. Prentisiwyd ef yn swyddfa Thomas Gee. Bu yno 1850-9, yn gysodydd i gychwyn, yna'n gynorthwywr i Gee fel golygydd. Ysgrifennodd lawer i'r *Faner Fach*.

Yng nghyfarfod misol Llanelidan, Ionawr 1859, trefnwyd iddo ddechrau pregethu. Bu bum mlynedd yn athrofa'r Bala, gan ymadael fis Ebrill 1864. Colwyn oedd ei ofalaeth gyntaf. Bu yno ddwy flynedd a hanner. Ordeiniwyd ef yn Llangefni, Mehefin 1867. Sefydlwyd ef yn eglwysi Jerusalem, Bethesda, a Thy'nymaes yn Ionawr y flwyddyn honno.

Yn 1870 priododd Winifred, merch i'r Parch. Rees Jones, y Felin Heli; bu iddynt un mab, Arthur Rhys, cyfreithiwr, a fu farw'n gynnar.

Yr oedd yn llywydd y gymdeithasfa yn y Gogledd yn 1893, ac ysgrifennydd cymdeithas gartrefol y Gogledd, 1889-99; cyhoeddid ei adroddiad blynyddol yn atodiad i'r *Drysorfa.* Yr oedd yn llenor coeth a phregethwr grymus, ac yn efrydydd dyfal o waith Morgan Llwyd.

Bu farw ym Mangor 24 Tachwedd 1899.

## Awdur

**Y Parchedig Ddr John Owen**, (1864 - 1953)

## Ffynonellau


*Trysorfa y Plant*, Gorffennaf 1898

*Y Drysorfa*, 1900, 147, 255

Owen Evans, *Dinbych - yn ei Hynafiaeth a'i Henwogion* (Dinbych 1907)


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821450


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu